

## I ble'r aeth y Gog? gan Jon Green

Mae'r nifer o adar yng Nghymru yn newid, gyda phob rhywogaeth yn cael ei effeithio mewn rhyw ffordd. Ar yr ochr dda, mae rhai rhywogaethau yn cynyddu, ac mae ambell rywogaeth newydd wedi ymddangos ac yn bridio yng Nghymru. O'r yr ochr arall, mae rhai adar yn dirywio mewn nifer gydag ambell un mewn perygl o farw allan. Mae'r Llywodraeth yn defnyddio poblogaethau Adar fel dangosydd o'r hyn sydd yn digwydd yn yr amgylchedd. Mae'r newidiadau yma yn achosi pryder ac yn arwydd o drwbl o'n blaenau. Mae poblogaethau yn mynd i fyny ac i lawr pob blwyddyn yn dibynnu ar

- gyflenwad bwyd
- nifer o ysglyfaethwyr
- afiechyd
- safleoedd nythu
- y tywydd
- newid hinsawdd

Mae rhai o'r newidiadau mwyaf oherwydd amaethyddiaeth. Gyda mwy o bobl, mae angen mwy o fwyd ac mae pwysau ar ffermwyr i gynhyrchu mwy o fwyd yn rhatach. Mae sawl aderyn Cymreig wedi ei effeithio - Melyn yr eithin, cornchwigen, golfan y mynydd, a phetrisen lwyd. Roedd melyn yr eithin yn arfer bod yn gyffredin yng nghefn gwlad Cymru. Mae'n fwytawr had oedd yn ffynnu ar dir fferm ble tyfwyd cnydau â'r gyflenwai ddigon o rawn. Rhwng 1991 ac 2001 mae poblogaeth melyn yr eithin wedi lleihau 69% o 81,000 par i 38,850. Mae'r un yn wir am olfan y mynydd. Erbyn troad y ganrif yma, dim ond mewn llond dwrn o lefydd y gwelwn ef, ar hyd ffin Cymru a Lloegr, ac yng Ngwent. Mae'r un yn wir am gornchwiglod fu unwaith yn gyffredin ar dir fferm ond sydd yn bridio mewn ambell safle yn unig yng Nghymru yn awr a'r betrisen lwyd - dim ond mewn llefydd ble caiff ei fridio er mwyn ei saethu y gwelwch yr aderyn druan yma.

Mae'r adar yma i gyd yn dioddef oherwydd:

- Codi gwrychoedd/perthi olyga lai o safleoedd nythu.
- Newid o ffermio cymysg i ffermio ungnwd yn enwedig o laswellt i silwair a phorfa.
- Defnydd o blaladdwyr ar gyflenwad had.
- Diffyg sofr gaeaf trwy blannu had yn yr hydref yn hytrach na'r gwanwyn.



Aderyn y to

Mae ambell rywogaeth wedi dioddef gan fod pobl yn eu hela, ond erbyn hyn mae newid agwedd yn golygu gwell siawns i'r rhain. Saethwyd a gwenwynwyd y Barcud Coch gan i bobl feddwl ei fod yn lladd defaid, wyn ac yn cario afiechyd.

Disgynnodd niferoedd mor isel fel mai dim ond 5 par oedd yn y deyrnas Unedig yn yr 1930au a'r rheiny yng Ngheredigion a Chaerfyrddin.


Rhoddwyd gorchymyn gwarchod arnynt oedd yn ei gwneud yn anghyfreithlon i'w difa a gyda'r RSPB, CCW ac unigolion yn gwarchod nythod, cododd y boblogaeth i 40 par yn nythu erbyn 1985.

Ers hynny mae'r boblogaeth wedi ffrwydro ac erbyn 2005 roedd yna 500 par yng Nghymru. Maent yn adar gwerth eu gweld ac yn amlwg iawn yn y canolbarth.



Y Barcud Goch


Mae newid mewn amaethyddiaeth a hela yn gallu egluro'r effaith ar rai rhywogaethau, ond nid yw mor glir â hyn gydag eraill. Mae ffactorau eraill ar waith all fod wedi deillio o fioleg ac ymddygiad yr adar. Mae'r siart isod yn dangos sut mae poblogaethau rhai adar Cymreig wedi newid yn y deng mlynedd diwethaf. Awgrymir fod y newid yma yn digwydd oherwydd newid hinsoddol - lleihad mewn marwolaethau gaeaf, tywydd gwell yn y gwanwyn a haf neu newid yn y patrwm bridio.



Caiff newid hinsoddol effaith arall, y tro yma yn y gwanwyn a haf - y tymor bridio. Bydd hinsawdd gynnes yn golygu blaguro dail cynt, sydd yn arwain at adnodd bwyd cynharach i lindys ayb sydd yn bwyta dail, felly byddent yn ymddangos yn gynharach bob gwanwyn.

Er mwyn i unrhyw rywogaeth fridio a byw yn llwyddiannus, rhaid iddynt addasu i'w cynefin. Mae amseriad dodwy wyau yn hanfodol bwysig fel bo'r wyau yn deori pan mae'r cyflenwad mwyaf o fwyd ar gael iddynt.

Mae'r BTO wedi dadansoddi canlyniadau arolwg Nythu Adar ac wedi darganfod fod adar cynhenid yn dodwy eu hwyau yn gynharach fel dengys y siart.



Mae'r adar preswyl yn newid eu tymor nythu i gyd fynd gyda'r cyflenwad bwyd cynharach.

### Beth am ein hymwelwyr o dramor? Ydyn nhw'n gallu delio gyda'r newid?

Mae'r wennol (swallow) wedi cynyddu 72% yn y deng mlynedd diwethaf, ond mae'r wennol ddu (swift) a theloriaid wedi lleihau hyd at 37%.

Maen bosibl eu bod yn cael trafferth addasu i hafau cynhesach a sychach Cymru. Ond mae newid hinsoddol yn cael effaith global, ac mae rhai o'r prif newidiadau i'w gweld mewn llefydd eraill. Mae llawer o'n mudwyr haf yn gaeafu i'r De o anialwch y Sahara - ardal y Sahel.



Y Wennol

Mae cynnydd mwn tymheredd, diffyg glawiad, newid ym mhatrwm y tywydd a gorburi yn achosi i'r Sahel ymledu gan arwain at ddiffeithdira yn yr ardal. Rhaid i'r mudwyr deithio ymhellach i'r de i gael eu bwyd ac felly teithio ymhellach i'n cyrraedd gan or ddefnyddio eu storfa fraster alla arwain at fwy o farwolaethau pan gyrhaeddant.

Mae hinsawdd fwynach Cymru a chyflenwad cynharach o fwyd yn ei gwneud hi'n hanfodol i fudwyr yr haf gyrraedd yma yn gynharach; mewn rhai achosion hyd at bythefnos yn gynharach a chychwyn bridio yn syth. Mae rhai rhywogaethau yn gallu delio gyda hyn e.e. y Wennol, ond mae rhai yn dioddef e.e. Wennol Ddu a theloriaid.

## A beth am y Gog - un o'r mudwyr haf amlycaf?

Roedd ei gan yn gyffredin ar dir fferm ac uwchdiroedd Cymru.

Pryd glywoch chi hi ddiwethaf?

Ydi hynna'n rhoi ateb i chi?

Mae'r Gog yn ei chael yn anodd ar ei thir gaeafu yn Africa oherwydd sychder a diffeithdira ac yma yng Nghymru oherwydd newid mewn amaethu a llai o wrychoedd/perthi iddynt ddodwy wyau. Yn wir, bu lleihad o 32% yn ei niferoedd yn y ddeng mlynedd ddiwethaf, ac mae wedi diflannu o rannau o Gymru.



Y Gog

Nid yw'r rhain wedi gallu newid eu patrwm mudo. Nid ydynt yn ymddangos yma ddim cynt, ac mae hyn yn arwain at broblem arall.

Mae'r Gog fel parasit yn dodwy ei wy mewn nyth aderyn arall gan adael i hwn fagu'r cyw.

Mae'r rhywogaeth Letyol yma megis corhedydd y Waun a Llwyd y Gwrych wedi ymateb i'r gaeafau mwyn a chyflenwad cynharach o bryfaid trwy fridio yn gynharach - o leiaf wythnos yn gynharach rhwng 2004 ac 1966. Erbyn i'r gog gyrraedd mae'r lletywr gyda chywion yn barod, felly mae llai o nythod ar gael i'r Gog ddodwy ei wyau ac nid oes ganddo unman i fridio.

Dim rhyfedd fod ei boblogaeth yn dirywio cymaint.



Corhedydd y waun

Gellir unioni newidiadau amaethu trwy droi'n organic neu thrwy roi grantiau i ffermwyr i dyfu eu cnydau mewn dulliau eraill. Mae newid hinsoddol yn achosi problem fwy ac un na allwn wneud llawer amdano heb lawer o gydweithredu. Gall lleihau ein troed garbon gynorthwyo ond gall fod yn rhyw hwyr. Fel y bydd yr hinsawdd yn newid, byddwn yn gweld mwy o newidiadau, rhai yn digwydd yn araf ac eraill yn digwydd yn gyflym i boblogaeth ein hadar Cymreig. Mae'r adar cynhenid i weld yn gallu addasu, ond nid yw'r rhywogaethau mudol. Gall addasu ymddygiad a phatrwm bridio gynorthwyo ond i rai, fel y Gog, nid yw amser o'u plaid a gallent ddiflannu o'n cefn gwlad yn fuan. Dim ond dyfalu beth wnaiff ddigwydd gyda newid pellach yn yr hinsawdd y gallwn ei wneud.

## Gweithgareddau

A oes newid wedi bod mewn amaethyddiaeth yn eich ardal? Beth am siarad gyda'ch rhieni, taid a Nain i ddarganfod mwy. Efallai eich bod yn gwybod am ffermwr ddaw i'r ysgol i roi sgwrs i chi. Gallwch edrych ar hen fap arolwg Ordnans a'i gymharu gyda map diweddar i weld sut mae ffiniau caeau wedi newid.

Gwnewch arolwg yn eich dosbarth gan ofyn i'r teulu

- Pwy sydd yn gwybod sut gan sydd gan y Gog?
- Pwy sydd wedi clywed y Gog yn y pum mlynedd ddiwethaf a ble'r oedd hynny?

Ymchwiliwch y rhyngwyd i ddarganfod mwy am:

- Y Gog
- Ardal y Sahel
- Diffeithdira

Cynhyrchwch boster neu bamffled gwybodaeth am y Gog - sut mae'n edrych, beth mae'n ei fwya, pa rywogaeth sydd yn magu ei gywion.

Gallwch gofnodi pryd y gwelwch y wennol gyntaf, grifft llyffant neu wennol y bondo, neu beth am gysylltu gyda'ch gwarchodfa natur RSPB leol i ddarganfod mwy am adar eich ardal.

Gallwch ddarganfod mwy trwy ddilyn y cyswllt yma: [www.climatechangewales](http://www.climatechangewales)

Mae Jon Green yn athro bioleg a golygydd Adroddiad Adar Cymru (cyfieithiad or erthygl hon gan y golygydd)

